# Llwybrau at Ieithoedd

# Canllawiau Cystadleuaeth 'Spelling Bee' 2010-11

## Ar y cyd â Comberton Village College a Phrifysgol Southampton

Rhifyn 1af: Ionawr 2011

www.routesintolanguages.ac.uk/spellingbee

# Cymhwyster

1. Mae Cystadleuaeth sillafu 'Spelling Bee' Llwybrau at Ieithoedd (y cyfeirir ati fel "y Gystadleuaeth" isod) yn gystadleuaeth sy'n agored i ysgolion yng Nghymru a Lloegr. Rhaid i ddisgyblion fod mewn addysg llawn amser ac yn aelod o ddosbarth blwyddyn 7 yn ystod blwyddyn academaidd 2010/2011.

# Amserlen

2. Mae'r Gystadleuaeth yn dechrau ym mis Medi 2010, ac mae ysgolion yn cofrestru cyn dyddiadau sy'n cael eu penderfynu gan bob rhanbarth yn eu tro (y "Dyddiad Cau "). Chi sy'n gyfrifol am gost anfon eich cofrestriad atom (os oes cost).

3. Cynhelir rowndiau'r dosbarthiadau yn ystod tymor yr hydref 2010. Cynhelir rowndiau'r ysgolion cyn gwyliau hanner tymor Chwefror 2011, y rowndiau terfynol rhanbarthol ym misoedd Mawrth ac Ebrill 2011, a'r rowndiau terfynol cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2011.

4. Bydd yr union ddyddiadau a lleoliadau'n amrywio, yn ddibynnol ar y lle sydd ar gael: mae'n debyg y bydd cyfyngiad ar nifer y Cystadleuwyr mewn rhai lleoliadau i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.

5. Mae'n rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r terfynau amser sydd wedi eu gosod yn eu rhanbarth.

# Telerau ac Amodau

6. Cyfeirir atom ni, Llwybrau at Ieithoedd, fel "Llwybrau", "ni", "rydym" neu "ein" isod. Cyfeirir at Gystadleuwyr, eu hathrawon a/neu eu hysgolion (fel bo'r cyd-destun yn dynodi) fel 'chi' neu 'eich'.

7. Drwy gymryd rhan yn y Gystadleuaeth, rydych yn derbyn y canllawiau hyn.

8. Rydym yn cadw'r hawl i adolygu cymhwyster ymgeiswyr ar unrhyw adeg.

9. Rydym yn cadw'r hawl i newid y canllawiau ar unrhyw adeg.

10. Canllaw cymhwysedd iaith. Nod y Gystadleuaeth yw profi gwybodaeth disgyblion am iaith darged sy'n newydd, neu'n eithaf newydd iddyn nhw.

11. Os canfyddir bod ysgolion yn mynd yn groes i nod y Gystadleuaeth, fe allen nhw gael eu diarddel cyn neu yn ystod y Gystadleuaeth, a bydd yn rhaid iddyn nhw ildio unrhyw wobrau a gafwyd drwy gymryd rhan.

12. Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol, ac ni fydd gohebiaeth yn cael ei derbyn.

13. Gallai rowndiau'r Gystadleuaeth gael eu gohirio neu eu canslo mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd ysgolion yn cael gwybod am unrhyw ganslad neu ohiriad cyn gynted a bo hynny'n rhesymol o ymarferol.

# Cydsyniad Rhiant/Gwarcheidwad

14. Bydd pob ysgol yn cytuno i fod yn gyfrifol am gael y caniatâd angenrheidiol gan riant neu warcheidwad pob plentyn sy'n cymryd rhan.

15. Yn achos rowndiau rhanbarthol a chenedlaethol, bydd pob ysgol yn anfon llythyr cadarnhad atom ni, a fydd yn cadarnhau fod yr ysgol wedi cael y caniatâd priodol gan riant/gwarcheidwad pob Cystadleuwr a fydd wedi eu henwi yn y llythyr.

16. Efallai y gwnawn ni ddefnyddio enwau'r ysgolion sy'n cymryd rhan i hyrwyddo'r Gystadleuaeth, gan gynnwys ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol ac ar blatfformau arddangos. Gyda chaniatâd ysgrifenedig rhieni neu warcheidwaid y disgyblion, efallai y gwnawn ni hefyd ddefnyddio enw cyntaf, llun a pherfformiad disgyblion sy'n cymryd rhan i hyrwyddo'r Gystadleuaeth fel sy'n cael ei amlinellu uchod.

17. Mae enillwyr gwobrau sy'n cytuno y cawn ni eu ffilmio, tynnu eu llun neu eu recordio yn rhoi caniatâd i ni gyhoeddi, yn ddi-dâl, fideos, lluniau neu draciau sain ar-lein a thrwy bob cyfrwng y mae gofyn i ni eu defnyddio er dibenion hyrwyddo'r Gystadleuaeth. Caiff Llwybrau olygu, addasu, cyfieithu neu gael gwared â'r deunydd unrhyw dro; er, unwaith y bydd y deunydd wedi ei gyhoeddi ar-lein, mae llai o reolaeth drostyn nhw, gan eu bod nhw erbyn hynny yn y parth cyhoeddus.

18. Gelir cael enwau'r enillwyr cenedlaethol drwy anfon amlen â chyfeiriad a stamp arni i'r cyfeiriad canlynol: Subject Centre LLAS, Avenue Campus, University of Southampton, SO17 1BJ.

# Sut mae'r Gystadleuaeth yn gweithio

## Y Sefydliad

19. Gellir penderfynu'n lleol pa ysgolion sy'n cael cymryd rhan er mwyn cyflawni cynlluniau rhanbarthol yn ystod blwyddyn academaidd 2010-11, blwyddyn beilot y gystadleuaeth genedlaethol.
20. Mae'r Gystadleuaeth yn cynnwys pedair rownd o gystadlaethau sillafu: rowndiau dosbarthiadau, rowndiau ysgolion, y rownd derfynol ranbarthol a'r rownd derfynol genedlaethol (Cymru neu Loegr). Efallai y bydd nifer o rowndiau mewn Cystadlaethau terfynol.

21. Rhaid i Gystadleuwyr gyfieithu geiriau sy'n cael eu rhoi gan yr Arholwr Sillafu i'r iaith darged, ac yna eu sillafu yng ngwyddor yr iaith darged (Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg neu Gymraeg).

22. Mae proses pob rownd, a'r holl waith paratoi, yn cael ei ddisgrifio ym Mhecyn yr Athrawon.

## Y Gystadleuaeth

23. Bydd yr Arholwr Sillafu yn gofyn i bob Cystadleuwr 'Wyt ti'n barod?', a bydd munud y Cystadleuwr yn dechrau ar ôl i'r Cystadleuwr gytuno eu bod nhw'n barod i ddechrau.

24. Bydd y Cystadleuwyr yn cael MUNUD i sillafu'n gywir gymaint â phosibl o eiriau yn yr iaith darged.

25. Bydd beirniad a gwiriwr yn gwrando ar bob gair, ac yn cadw cofnod o'r sgôr yn ystod y munud o amser y bydd pob Cystadleuwr yn ei gael. Ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, bydd beirniaid a gwirwyr yn athrawon iaith neu'n ddarlithwyr prifysgol. Yn rowndiau'r dosbarthiadau a'r ysgolion, dylai'r beirniad fod yn athro, a gall y gwirwyr fod yn fyfyrwyr hŷn. Cyn belled a bo'r ddau'n cytuno ar sillafiad cywir y gair dan sylw, bydd un pwynt yn cael ei ddyfarnu. Bydd Cystadleuwyr yn cael eu harholi'n unigol, heb anogaeth.

26. Pe bai Cystadleuwyr yn gyfartal, fe fyddan nhw'n parhau i sillafu gair yn eu tro, nes bydd un ohonyn nhw'n sillafu gair yn anghywir. Bydd y disgybl hwnnw wedyn yn gadael y Gystadleuaeth, a bydd y broses yn parhau nes bydd enillwr yn cael ei ddewis (ac fel arfer, dewis yr ail orau, y trydydd gorau ac ati, yn ddibynnol ar nifer gwreiddiol y Cystadleuwyr oedd yn y datglwm). Disgrifir y rownd hon fel y rownd sydyn. Rhoddir yr un faint o eiriau i'r Cystadleuwyr eu sillafu.

27. Bydd y geiriau'n cael eu dewis ar hap gan yr Arholwr Sillafu.

28. Darperir rhestrau o eiriau yn y Pecyn i Athrawon, a bydd sillafu'r geiriau yn cael ei wirio yn unol â'r rheiny.

## Yr Enillwyr

29. Bydd enwau'r Cystadleuwyr buddugol fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y rownd berthnasol, gan fod pob rownd yn gystadleuaeth fyw sillafu ar lafar.  Y rowndiau yw rowndiau terfynol y dosbarthiadau, yr ysgol, y rhanbarth a'r rownd derfynol genedlaethol (yng Nghymru neu Loegr).

30. Bydd y rheolwyr Llwybrau rhanbarthol yn cael gwybod am enillwyr rownd yr ysgolion yn brydlon, gan ystyried y terfynau amser rhanbarthol.

31. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y Gystadleuaeth, anfonwch e-bost atom: routes@soton.ac.uk gyda 'Spelling Bee' yn y llinell pwnc.

# Rheolau'r Cystadleuwyr

32. Bydd y Cystadleuwyr yn wynebu'r beirniad ac yn siarad yn glir gyda digon o lais.  Os na all y beirniad glywed y Cystadleuwr, bydd yn nodi hynny a bydd y Cystadleuwr yn ailgynnig sillafu'r gair ar unwaith.  Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol o ran a ydyn nhw wedi clywed llythyren neu sillafiad.

33. Ni all Cystadleuwyr newid trefn llythrennau unwaith y byddan nhw wedi cwblhau sillafu'r gair (oni bai eu bod nhw'n rhoi ail gynnig arni), ond fe gawn nhw aros ar ganol gair a rhoi cynnig arall arni drwy fynd yn ôl i'r dechrau.

34. Fel arfer, dim ond un ail gynnig fesul gair y bydd y beirniad yn ei ganiatáu.

35. NI fydd y cloc yn cael ei stopio ar gyfer ailadrodd geiriau.

36. Ni chaniateir ymgynghori.

37. Rhaid i Gystadleuwyr gadw'n dawel pan nad ydyn nhw wrthi'n sillafu.  Bydd Cystadleuwyr sy'n tarfu ar y gweithgareddau yn cael eu rhybuddio, ac os yw'r tarfu'n parhau, fe allen nhw gael eu diarddel.

38. Os daw'r amser i ben cyn i Gystadleuwr ddechrau sillafu gair, ni ddyfernir pwynt.

39. Os bydd y Cystadleuwr wedi dechrau sillafu gair pan ddaw'r amser i ben, fe gawn nhw barhau, ac os yw'r sillafiad yn gywir, yna bydd pwynt yn cael ei ddyfarnu iddyn nhw.

40. Os bydd y Cystadleuwr yn cael ei rwystro rhag sillafu gair, a bod yr amser yn dod i ben (er enghraifft, os bydd Cystadleuwr arall yn tarfu arnyn nhw), gallai'r beirniad ganiatáu ail gynnig, ar ei ddisgresiwn ef neu ei disgresiwn hi.

41. Bydd Cystadleuwyr yn clywed y gair, yn ei gyfieithu i'r iaith darged, yna'n ei sillafu drwy ddefnyddio gwyddor yr iaith darged, gan ddilyn y fformiwla DWEUD a SILLAFU.

42. Os bydd Cystadleuwyr yn ansicr a ydyn nhw wedi clywed y gair yn iawn, nhw sy'n gyfrifol am ofyn am gael clywed y gair eto.

# Mynd i'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol a Chenedlaethol

43. Caiff pob ysgol anfon cyfanswm o 4 o'u Cystadleuwyr buddugol i rownd derfynol ranbarthol (4 fesul ysgol, nid fesul iaith).

44. Bydd yn rhaid i aelod o staff (fel arfer, athrawon, cynorthwywyr dysgu neu staff ategol) fynd gyda'r grŵp o 4 Cystadleuwr a'u goruchwylio.

45. Gellir trefnu lle i westeion ychwanegol drwy'r rhanbarthau Llwybrau unigol.

46. Pe bai salwch neu reswm arall na ellir ei osgoi yn golygu na allai'r enillwr gymryd rhan, dylai'r Cystadleuwr wrth gefn (fel arfer, yr un a ddaeth yn ail neu'n drydydd yn y rownd flaenorol) gael cymryd lle'r buddugwr.

47. Dylid gwisgo gwisg ysgol (lle bo'n briodol) yn y rowndiau terfynol rhanbarthol a chenedlaethol.

48. Bydd pob ysgol yn gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth ddigonol a phriodol o'u Cystadleuwyr yn y rowndiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ni fydd Llwybrau'n gyfrifol am oruchwylio disgyblion mewn unrhyw Gystadleuaeth.

49. Yr ysgolion eu hunain sy'n gyfrifol am gostau teithio eu grŵp, y staff sy'n mynd gyda nhw a'u cefnogwyr. Mewn amgylchiadau eithriadol pan na fydd ysgol yn gallu bod yno, dylai'r pennaeth ysgrifennu atom ni i egluro'r amgylchiadau. Bydd ceisiadau am fwrsari teithio'n cael eu hystyried mewn amgylchiadau eithriadol fesul achos unigol; bydd penderfyniad y trefnwyr yn derfynol.

50. Bydd ysgolion sy'n gorfod tynnu eu henwau'n ôl o unrhyw ddigwyddiad yn rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl, a ddim hwyrach na 24 awr cyn y digwyddiad penodol.

51. Efallai y bydd gofyn cael tocynnau i fynd i rowndiau rhanbarthol a chenedlaethol, er mwyn osgoi cael gormod o gynulleidfa; bydd tocynnau neu drwyddedau'n cael eu hanfon i'r ysgolion perthnasol cyn y digwyddiad.

52. Os bydd angen rhannu'r rowndiau terfynol rhanbarthol yn rowndiau llai o faint, cynhelir rowndiau isranbarthol.

53. Efallai y bydd y rhestrau geiriau ar gyfer y rownd derfynol genedlaethol (cam 4) yn cael eu newid ychydig gennym ni i gyflwyno hyd at ddeg gair newydd yn ychwanegol at y 50 yng ngham 4, gan barhau â'r thema chwaraeon. Bydd y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael gwybod am hyn yn ddiweddarach yn y Gystadleuaeth, a hynny ddim hwyrach na 6 Mai 2011.

54. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i westeion nad ydyn nhw wedi dod â'u tocyn neu eu trwydded gyda nhw.

55. Bydd yn rhaid i ffonau symudol y gynulleidfa a'r Cystadleuwyr gael eu diffodd yn ystod y digwyddiad. Rhoddir un rhybudd os bydd yr amod hwn yn cael ei dorri. Os mai Cystadleuwr sy'n torri'r amod, fe allen nhw gael eu diarddel, neu yn achos aelod o'r gynulleidfa, gofynnir iddyn nhw adael yr ystafell.

56. Mae'n rhaid i westeion eistedd yn dawel yn ystod y Gystadleuaeth. Ni chaiff gwesteion ddylanwadu ar y Cystadleuwyr mewn unrhyw ffordd, neu fe allai hynny arwain at ddiarddel y Cystadleuwr.

57. Anghenion Addysgol Arbennig: Fe wnawn ni drefniadau rhesymol i alluogi disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig i gymryd rhan.

# Y Beirniad

58. Bydd penderfyniad y beirniad yn derfynol; eu hawdurdod yw'r rhestr o eiriau.

59. Os bydd y beirniad yn credu fod yr Arholwr Sillafu wedi yngan gair yn anghywir, fe ddylen nhw dynnu sylw at hyn cyn bod y Cystadleuwr wedi dechrau sillafu'r gair. Os yw'r Cystadleuwr wedi sillafu'r gair yn barod, fe gawn nhw air yn ei le, oni bai fod y sillafiad yn gywir.

60. Os nad yw'r beirniad yn gallu clywed llythyren neu sillafiad yn glir, fe wnawn nhw ddweud wrth y Cystadleuwr ar unwaith am ail-sillafu'r gair yn arafach ac yn eglurach.

61. Os bydd y beirniad o'r farn fod gair yn cael ei ynganu'n gywir, ni roddir gair yn ei le; ni roddir pwyntiau am eiriau sy'n cael eu camsillafu.

# Rheolau Diarddel

62. Os yw'r beirniad o'r farn bod twyll wedi digwydd, bydd y Cystadleuwr dan sylw'n cael ei ddiarddel.

63. Bydd gadael ffonau symudol ymlaen ar ôl rhoi rhybudd yn arwain at ddiarddel y Cystadleuwr dan sylw.

64. Os na fydd gwesteion yn cadw'n dawel yn ystod y Gystadleuaeth ar ôl cael rhybudd, yna fe allai hynny arwain at ddiarddel eu Cystadleuwr.

65. Os yw'r beirniad yn amau fod aelodau o'r gynulleidfa yn dylanwadu ar gywirdeb y sillafiad ym mha bynnag fodd, bydd y beirniad yn rhoi rhybudd, ac os bydd y sefyllfa'n parhau, fe allai'r beirniad ddiarddel y Cystadleuwr neu'r Cystadleuwyr dan sylw.

66. Os bydd Cystadleuwr a'u hathro yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer rowndiau rhanbarthol neu genedlaethol y Gystadleuaeth, gallai hynny arwain at eu diarddel.

# Gwobrau a Theitlau

67. Bydd tlysau a thystysgrifau yn cael eu rhoi i'r enillwyr (fel arfer, y rhai sydd yn y pedwar safle uchaf) a bydd cwpan yn cael ei chyflwyno i ysgol(ion) enillwyr y rowndiau rhanbarthol.

68. Bydd enillwyr cenedlaethol hefyd yn derbyn cwpan i'w hysgol(ion), ynghyd â theitl Pencampwr 'Spelling Bee' Cenedlaethol Cymru neu Loegr, ym mhob iaith darged.

69. Cynigir y gwobrau o fewn 28 diwrnod i roi gwybod i'r enillwyr; os na fydd gwobr wedi cael ei derbyn o fewn 28 diwrnod yn rhagor, efallai y tynnir y cynnig yn ôl.

70. Gallai gwobrau ychwanegol gael eu rhestru ar wefan Llwybrau, ac fe allen nhw newid. Fe allem ychwanegu neu dynnu gwobrau yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod y Gystadleuaeth. Ni chynigir arian parod nac arian yn lle gwobrau.

71. Ni ellir cyfnewid gwobrau na'u trosglwyddo gennych chi, ac ni ellir eu newid gennych chi am arian nac unrhyw wobr arall.

# Diogelu Data

72. Dim ond er dibenion gweinyddu'r Gystadleuaeth y gwnawn ni ddefnyddio manylion personol Cystadleuwyr, ac ni wnawn ni eu trosglwyddo i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig eu rhiant neu eu gwarcheidwad cyfreithlon.

73. Er dibenion Deddf Diogelu Data 1998, rheolwr y data yw Prifysgol Southampton, a gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch defnyddio data personol at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn y cyfeiriad canlynol: Data Protection Officer, University of Southampton, Highfield, Southampton SO17 1BJ.

74. Hyrwyddwr y Gystadleuaeth yw Llwybrau at Ieithoedd, a dylid anfon unrhyw sylwadau ynghylch y Gystadleuaeth i'r cyfeiriad canlynol: Subject Centre LLAS, Avenue Campus, University of Southampton, SO17 1BF.

75. Nid yw'r hyrwyddwr na'r trefnwyr rhanbarthol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod, colled, rhwymedigaeth, anaf neu siom a ddigwyddodd neu a ddioddefwyd gan unrhyw un o ganlyniad i roi cynnig ar y Gystadleuaeth neu dderbyn unrhyw wobr.  Ymhellach, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anaf neu ddifrod i'ch cyfrifiadur chi, nac i gyfrifiadur unrhyw un arall ynghylch neu yn sgil cymryd rhan yn y Gystadleuaeth neu lwytho i lawr neu lwytho i fyny unrhyw ddeunyddiau yn gysylltiedig â hi.

76. Bydd y Gystadleuaeth yn cael ei llywodraethu dan Gyfraith Lloegr.  Rydych yn ymostwng yn ddi-alw'n ôl i awdurdodaeth eithaf llysoedd Cymru a Lloegr.